


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom am 7y.h. ar nos Fawrth Gorffennaf 13 2021

Presennol :- Cyngorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Malcolm Humphreys, Bethan Rees Jones, Richard Williams, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Jason Humphreys, Dr Melfyn Edwards, Dr Simon Brooks, Marian Roberts (Clerc)

67.7.21 Ymddiheuriadau :- Cyngorwyr :- Stuart Nashir-Hallard, Nia Jeffreys, Linda Wyn Roberts, Ian Jones

68.7.21 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Dechreuodd y Cadeirydd drwy estyn cydymdeimlad ar ran y Cyngor Tref ac yn bersonol at y Cyngorydd Aled Griffith, Ty Nanney, Tremadog ar ei brofedigaeth trist o golli ei wraig, Sian, yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w groesawu nôl i'r Cyngor er mwyn iddo barhau i wasanaethu a chyfrannu tuag at weithgareddau'r Cyngor Tref.

Roedd y Cadeirydd yn edrych ymlaen i'r haf ac er fod busnesau ar agor unwaith eto teimlai fod angen gofal i sicrhau diogelwch pawb dros y cyfnod sydd i ddod. Dywedodd fel yr oedd yn teimlo'n amser hir iawn ers dechrau'r Cyfnod Clo ac anodd yw credu ein bod yn wynebu ail haf yn yr un sefyllfa o gyfyngiadau. Eglurodd fel yr oedd gan y cyfyngiadau effaith bellgyrhaeddol ar fywyd bob dydd a bod rhaid parhau'n wylidwrus wrth wynebu'r pwysau ychwanegol o fwy o ymwelwyr nag arfer yn ymweld â'r ardal.

Ychwanegodd y Cyng Jason Humphreys ei fod yn dymuno cofnodi marwolaeth Mr Glyn Jones, Tremadog – gŵr oedd yn flaenllaw iawn mewn sawl cymdeithas a mudiad yn lleol. Roedd ei gyfraniad i'r ardal yn un sylweddol. Roedd y Cyngor Tref yn estyn eu cydymdeimlad diffuant at y teulu a bydd y Clerc yn gyrru cerdyn ar ran y Cyngor Tref at y teulu i fynegi cydymdeimlad.

69.7.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mehefin 8 2021

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio

70.7.21 Cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan diddordeb.

- Cyng Llywelyn Rhys – 84.7.21 Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyng Llywelyn Rhys – 78.7.21 Taliadau i aelodau

Materion i'w dwyn gerbron :-

71.7.21 Cyng Jason Humphreys – trafod lleoliad cyfarfodydd y Cyngor.

Er fod sawl aelod o'r Cyngor Tref yn awyddus iawn i ddychwelyd i'r drefn arferol o gyfarfod yn fisol yn y Ganolfan roedd rhai aelodau yn parhau yn bryderus ynglyn â'r sefyllfa yn enwedig o weld 3ydd don Cofid ar y gorwel. Eglurwyd fod rhai cymdeithasau lleol eisoes yn cyfarfod wyneb yn wyneb wrth gadw at y rheolau hylendid ac ymbellhau cymdeithasol a'i bod yn ddymunol i'r Cyngor Tref weithredu yn yr un modd.

Cytunwyd y gallai'r sefyllfa newid yn sylweddol un ffordd neu'r llall rhwng rwan â chyfarfod mis Medi ac mai gwell fyddai gohirio unrhyw benderfyniad tan hynny.

Penderfynwyd – gohirio unrhyw benderfyniad ac ystyried unwaith eto mewn cyfarfod rhithiol

ym mis Medi yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.
Eglurodd y Clerc mai Microsoft Teams fydd cyfrwng cyfarfodydd rhithiol o hyn ymlaen ac nid Zoom.

72.7.21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.

Yn absenoldeb Cyng Stuart Nashir-Hallard penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

73.7.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn

Cynigwyd y cyfrifoldeb i'r Cyng Malcolm Humphreys ond nid oedd yn hapus i ysgwyddo 'r cyfrifoldeb ac yntau newydd ymuno â'r Cyngor Tref. Ystyriwyd y gallai'r Clerc gysylltu â'r Cyng Linda Wyn Roberts i gynnig y cyfrifoldeb iddi hi. Deallwyd hefyd fod Faris Raouf yn parhau'n fodlon i gymryd y cyfrifoldeb. Eglurodd y Cadeirydd fel yr oedd ei gyfnod fel cynrychiolydd rhieni ar gorff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn yn cael ei ymestyn am flwyddyn arall oherwydd Cofid. Roedd yn hapus i adrodd yn ôl o'r cyfarfodydd i'r Cyngor Tref. Roedd hefyd am ymgynghori â phennaeth yr ysgol i weld os oedd posib newid ei rôl i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y Corff Llywodraethol.

Penderfynwyd – gadael y mater yn nwylo'r Cadeirydd a'r Clerc yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

74.7.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Bwyllgor Y Ganolfan

Cytunwyd fod y Ganolfan yn adnodd bwysig iawn i dref ac ardal Porthmadog ac y dylid manteisio arni drwy wneud defnydd ohoni.

Penderfynwyd –

- Y Clerc i ofyn am gopi o Gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Richard Williams yn eilio.
- Y Clerc i ofyn i'r Cyng Linda Wyn Roberts i fod yn gynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor y Ganolfan yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

75.7.21 Cynnig Cyng Aled Griffith - Cyflwyno 40 m.y.a. ar hyd y Cob ac ymestyn 30 m.y.a. heibio dechrau'r llwybr cerdded/beicio (ochr Porthmadog).

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

76.7.21 Cynnig Cyng Aled Griffith - Ysgrifennu at Rhian Wyn Williams i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa'r llochesi bws Tremadog

Yn absenoldeb Cyng Aled Griffith penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

77.7.21 Cyng Dr Melfyn Edwards – Trafod dyfodol Eglwys Sant Ioan

Eglurodd y Cyng Dr Melfyn Edwards fel yr oedd Eglwys Sant Ioan yn un o adeiladau hanesyddol ac eiconig tref Porthmadog ac y dylai'r Cyngor Tref wneud pob ymdrech i'w diogelu ar gyfer y dyfodol. Roedd yn pryderu am ddyfodol yr adeilad gan fod ystyriaethau diogelwch yn peryglu ei dyfodol.

Penderfynwyd – y Clerc i ysgrifennu at Swyddog Adeiladau'r Esgobaeth i ofyn iddynt roi diweddariad ar y sefyllfa yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

78.7.21 Penderfynu ar daliadau i aelodau 2021-2022 (t.40 – 47 o ddogfen Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2021 amg)

Penderfynwyd – gadael y mater ar y bwrdd tan gyfarfod yr Is-Bwyllgor Cyllid ar Orffennaf 27 2021.

79.7.21 Cyflwyno copi drafft o Adroddiad Blynyddol 2020-2021(copi amg, copi electronig yn unig)

Roedd y Cyngor Tref yn hapus i dderbyn y ddogfen a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn paratoi'r ddogfen. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei lawrlwytho ar y Wefan maes o law.

80.7.21 Cynghorydd Richard Williams – diweddariad ar Fainc Goffa Glenda Burke

Eglurodd y Cyng Richard Williams fel yr oedd bardd lleol, Tudur Puw, wedi cyfansoddi barddoniaeth i'w osod ar blac ar y fainc. Roedd wedi ymgynghori â Tony Burke ac roedd yntau'n hapus iawn efo'r gerdd. Dywedodd ei fod wedi derbyn amcanbris o rhwng £300 a £400 am y fainc a bod y coed yn barod i'w defnyddio. Diolchwyd i'r Cyng Richard Williams am gydlynu efo teulu Glenda Burke ac am drefnu'r prosiect.

Penderfynwyd –

- Cyng Selwyn Griffiths i holi Steffan Jones, Cyngor Gwynedd am ganiatâd i osod y fainc yn y Parc ar gais Cyng Richard Williams
- Cyng Richard Williams i drosglwyddo pob dogfennaeth (amcanbris/anfonebau/llythyrau a.y.y.b) i law'r Clerc er mwyn cofnodi'r trefniant ar liniadur y Cyngor.

81.7.21 Trefnu amser a lleoliad cyfarfod cychwynnol y Gweithgor Datblygu.

Penderfynwyd - cynnal y cyfarfod cychwynnol yn rhithiol ar Microsoft Teams am 7 nos Fawrth , Gorffennaf 20 er mwyn dechrau trafodaeth dros yr haf ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Medi yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

82.7.21 Cynghorydd Bethan Rees Jones – trafod tynhau ar Bolisi Iaith Cyngor Gwynedd

Eglurodd y Cyng Bethan Rees Jones fel yr oedd Gwynedd yn gadarnle y Gymraeg ac y dylai trigolion Gwynedd sefyll yn gadarn i wrthsefyll y peryglon i'r iaith Gymraeg ac i sicrhau dyfodol y Gymraeg. Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd Canolfannau Iaith Gwynedd ac yn eu canmol am eu gwaith clodwiw yn trwytho newydd-ddyfodiaid i fedru siarad Cymraeg a chyfrannu i'w cymunedau newydd. Er bod 2 Ganolfan Iaith newydd ar fin eu sefydlu, y naill ym Mangor a'r llall yn Nhywyn, roedd yn bryderus am fod Gwynedd yn torri ar eu cyllideb wrth leihau cyfnod y newydd-ddyfodiaid ar y safleoedd o 13 wythnos i 8 wythnos ac o 5 diwrnod yr wythnos i 4. Roedd hi hefyd yn fwriad gan Gyngor Gwynedd i orfodi ysgolion y sir i dalu am y gwasanaeth hwn.

Roedd y Cyng Selwyn Griffiths yn argymhell i aelodau'r Cyngor Tref ddarllen cofnodion cyfarfod Pwyllgor Economi Addysg Gwynedd er mwyn cael y cefndir i'r mater yma. Deallwyd fod y Cabinet wedi penderfynu ar y mater er gwaetha'r gwrthwynebiad.

Roedd y Cyng Dr Simon Brooks yn tanlinellu'r angen i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau yn ogystal â gweithredu er dyfodol y Canolfannau Iaith.

Penderfynwyd –

* ail drafod y mater yng nghyfarfod mis Medi

* y Clerc i ysgrifennu at Swyddogion Addysg Gwynedd i holi :-

- Beth sydd ar yr agenda ar gyfer y Canolfannau Iaith?
- Sut fydd y toriadau yn effeithio ar staffio? Cyflogau? Cynlluniau newydd?
- Sut mae'r Canolfannau Iaith am gael eu ariannu yn y dyfodol?
- Sut mae nhw am weithredu i sicrhau nôd y Llywodraeth o gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

yn ôl cynnig Cyng Bethan Rees Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Medi 14 – Medi 4ydd 2021, (Rheolau Sefydlog 8.1 “o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)

- Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.
- Cynnig Cyng Aled Griffith - Cyflwyno 40 m.y.a. ar hyd y Cob ac ymestyn 30 m.y.a. heibio dechrau'r llwybr cerdded/beicio (ochr Porthmadog).
- Cynnig Cyng Aled Griffith - Ysgrifennu at Rhian Wyn Williams i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa'r llochesi bws Tremadog
- Cynnig Cyng Dr Simon Brooks – parhau â thrafodaeth tynhau ar Bolisi Iaith Gwynedd

83.7.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm)

Trafodwyd arafwch Swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymateb i llythyrau. Eglurodd y Clerc fod hwn

yn broblem gyffredinol ac yn fater trafod rhwng Clercod Cymunedau Gwynedd. Bydd gohebiaeth perthnasol ar y mater gan Clerc Cyngor Llandygai ar restr Gohebiaeth mis Medi.

Penderfynwyd – dileu llythyr at Gyngor Tref Cricieth oddiar y rhestr aros am ateb yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys.

GOHEBIAETH :

84.7.21 Cyfoeth Naturiol Cymru, Risg Ilifogydd

Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod a cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Selwyn Griffiths y gadair.

Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth ac annog pawb i yrru sylwadau ar y mater i Gyfoeth Naturiol Cymru tra'n disgwyl am yr Adroddiad ganddynt yn hwyrach yn y flwyddyn.

85.7.21 Rachel Carter (Un Llais Cymru), Lleoedd Lleol ar gyfer natur

Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth a gwahodd Rachel Carter i ddod i siarad gyda'r Cyngor Tref er mwyn iddi fedru cynnig syniadau ar sut i gyfoethogi bio-amrywiaeth yn ardal Porthmadog, yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

87.7.21 Rhian Hughes, Helo Port

Eglurodd y Cyng Selwyn Griffiths fel yr oedd tref Porthmadog wedi cael ei dewis i dreialu'r fenter ac y byddai'n fodd i gasglu gwybodaeth am yr ardal er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor. Byddai hyn yn fanteisiol iawn gan y byddai'n rhoi syniadau i'r Cyngor am bethau sydd eu hangen yn yr ardal ac yn gymorth i wneud ceisiadau am grantiau i'r dyfodol. Ni fydd y Cyngor Tref yn ariannu'r fenter nac yn cyfrannu tuag ato.

Mynegwyd pryder mai rhyw fath o 'gimmick' oedd y fenter a'r perygl mai ymwelwyr fyddai'n ymateb i'r fenter ac nid trigolion lleol. Gallai hyn effeithio'n andwyol ar ganlyniad y fenter a gallai gael dylanwad ar bolisiau pobl leol. Fuasai'r astudiaeth ddim yn ddilys onibai iddo adlewyrchu barn a dymuniadau pobl leol. Nodwyd fod yn rhaid cynnwys y cwestiwn os mai person lleol neu ymwelydd oedd yn ymateb i'r fenter.

Penderfynwyd –

- y Clerc i estyn gwahoddiad i Rhian Hughes i ddod i siarad efo'r Cyngor Tref i drafod menter Helo Port a phrosiectau i'r dyfodol a
- gofyn iddi sicrhau fod y cwestiwn " ai person lleol neu ymwelydd ydych chi?" yn gynwysiedig reit ar ddechrau'r sgwrs.

88.7.21 William Owen, Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymhwysterau Clercod yng Nghymru (wedi ebostio ymlaen ar 1.7.21)

Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth.

89.7.21 Julie James - Ymateb i fater 46.6.21 Tai Fforddiadwy

Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth.

90.7.21 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent 2021 - 2022	£	7.50
HSBC	Llog Banc Mehefin 2021	£	00.29

Audurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mehefin 2021	£	47.00
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£	17.69
3	Marian Roberts	Costau teithio Mehefin 2021	£	5.88

4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mehefin 2021	£	639.39
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Mehefin 2021	£	159.85
6	Spick'n'Span	Glanhau lloches bws Morfa Bychan	£	114.00
7	B2 Systems	Llungopïo	£	25.78
8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Draenio Cae Pawb	£	5.54
9	Yr Wylan	3 hysbyseb @ £16	£	48.00
10	Xerox	Rhent Llungopïwr 1/8/21 i 31/10/21	£	126.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

91.7.21 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais : C21/0599/44/CC (ebost 1.7.21)

Lleoliad : 24 Gatws Morfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PF

Bwriad : Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed

PENDERFYNIAD - GWRTHWYNEBU ar sail ystyriaethau amgylcheddol ac am iddo ddifrodi bywyd gwyllt oherwydd bod coed yn llesol i'r amgylchedd wrth amsugno nwyon peryglus megis carbon.

(b) Rhif Cais.: C21/0606/44/DT (ebost 1.7.21)

Lleoliad : 1 Rhos Gwelfor, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TR

Bwriad: Ffenestr bae i'r blaen, estyniad unllawr ochr, estyniad llawr cyntaf, gosod nenoleuadau i'r ail lawr yn y cefn, addasiadau ffenestri a balconi

PENDERFYNIAD - GWRTHWYNEBU ar sail gor-ddatblygiad a newid cymeriad yr ardal

(c) Rhif Cais : C21/0555/44/LL (ebost 5.7.21)

Lleoliad : 78 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NW

Bwriad : Newid defnydd o Ddosbarth A1 (Siop) i Ddosbarth A2 (Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol)

PENDERFYNIAD – DIM GWRTHWYNEBIAD

(ch) Rhif Cais C21/0624/44/DT (ebost 9.7.21)

Lleoliad Bro Gwylan Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UF

Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr ochr

PENDERFYNIAD –rhoi amod tai fforddiadwy Adran 106 arno

(d) Rhif Cais.: C21/0618/44/LL (ebost 9.7.21)

Lleoliad: Glasfryn, 16 Stryd Y Banc, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA

Bwriad Trosi tŷ annedd i ffurfio un tŷ annedd ac un fflat hunan-gynhaliol gwyliau ar lefel to ynghyd a creu estyniad gromen i'r blaen ac estyniadau i'r cefn (un estyniad ar gyfer ymestyn y gegin a creu ystafell aml bwrras newydd a'r ail estyniad ar gyfer gosod grisiau mynediad newydd i'r fflat gwyliau)

PENDERFYNIAD – GWRTHWYNEBU ar sail gor-ddatblygiad a newid cymeriad yr ardal

Daeth y cyfarfod i ben am .9.00

MARIAN ROBERTS
GORFFENNAF 16 2021

DRAFT